

2019 Rhif (Cy. )

2019 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r  
A40 (Abergwaun, Sir Benfro)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2019

The A487 and A40 Trunk Roads  
(Fishguard, Pembrokeshire)  
(Temporary Traffic Prohibitions  
and Restrictions) Order 2019

*Gwnaed* 7 Ionawr 2019

*Made* 7 January 2019

*Yn dod i rym* 11 Ionawr 2019

*Coming into force* 11 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A487 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A487 and A40 Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 11 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the A487 and A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2019 and it comes into force on 11 January 2019.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

2. (1) In this Order:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor a Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 06:00 o’r gloch ar 11 Ionawr 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y i’r cyfeiriad arall pan fo system traffig unffordd yn gweithredu ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, fynd ar y i’r cyfeiriad arall pan fo system traffig unffordd yn gweithredu ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau’r darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3.

### **Cymhwyso**

8. Nid yw’r gwaharddiadau a’r chyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means those lengths of the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road and A40 London to Fishguard Trunk Road in the County of Pembrokeshire specified in the Schedules to this Order;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 06:00 hours on 11 January 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

### **Prohibitions and Restriction**

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the opposite direction when a one way traffic system is operating on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

5. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden any pedal cycle, to proceed in the opposite direction when a one way traffic system is operating on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

7. No person may, during the works period, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer, cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 3.

### **Application**

8. The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Ionawr 2019

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## **Duration of this Order**

9. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

7 January 2019

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd Cerbydau a Beiciwr Dros Dro**

##### **Cefnffordd yr A487**

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A40 Heol Fawr.

2. Y darn o gefnffordd yr A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Hamilton Street.

##### **Cefnffordd yr A40**

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

### **ATODLEN 2**

#### **System Draffig Unffordd Dros Dro**

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

2. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists**

##### **A487 Trunk Road**

1. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A40 High Street.

2. The length of the A487 Main Street from the centre of its junction with West Street to the centre of its junction with Hamilton Street.

##### **A40 Trunk Road**

1. The length of the A40 High Street from the centre of its junction with the A487 West Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.

### **SCHEDULE 2**

#### **Temporary One Way Traffic System**

1. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the A40 High Street and A487 Main Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.

2. The length of the A40 High Street from the centre of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A487 West Street and High Street.

### **ATODLEN 3**

#### **Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu ar Aros**

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.
2. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.
3. Y darn o'r A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 y Wesh hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

#### **GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A487 a'r A40 yn Abergwaun, Sir Benfro, neu gerllaw iddynt.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

- i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd;
- ii) gwahardd pob cerbyd a beiciwr, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd i'r cyfeiriad arall pan fo system traffig unffordd yn gweithredu ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- iii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau brys a cherbydau ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn; a
- iv) gwahardd pob cerbyd rhag aros yn ystod adegau penodol ar y darnau hynny o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am

### **SCHEDULE 3**

#### **Temporary Prohibition of Overtaking and Waiting Restriction**

1. The length of the A40 High Street from the centre of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A487 West Street and High Street.
2. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the A40 High Street and the A487 Main Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.
3. The length of the A487 Main Street from the centre of its junction with the A40 High Street and the A487 West Street to a point 70 metres north east of that junction.

#### **THE A487 AND A40 TRUNK ROADS (FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 and A40 trunk roads at Fishguard in the County of Pembrokeshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

- i) prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule;
- ii) prohibit all vehicles and cyclists, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the opposite direction when a one way traffic system is operating on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Notice;
- iii) prohibit all vehicles, with exemption for emergency and works vehicles, from overtaking during convoy working on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 3 to this Notice; and
- iv) prohibit all vehicles from waiting during specific times on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 3 to this Notice.

It is expected that the prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into

06:00 o'r gloch ar 11 Ionawr 2019 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 20:00 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwahardd Cerbydau a Beiciwr Dros Dro**

##### **Cefnffordd yr A487**

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â chefnffordd yr A40 Heol Fawr.

#### **Y Llwybr Arall - Cam 1 - Cyn Adeiladu Ffordd Gyswllt Newydd Chimneys**

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r gogledd-orllewin yw parhau ar hyd Heol Fawr hyd at Gylchfan Rafael ac yna mynd tua'r gogledd ar yr A40 i Gylchfan Windyhall ac yna cymryd yr ail allanfa i Windyhall/Vergam Terrace/y Wesh. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

#### **Y Llwybr Arall - Cam 2 - Ar Ôl Adeiladu Ffordd Gyswllt Newydd Chimneys**

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain ar y Wesh fydd troi i'r dde i Ffordd Gyswllt newydd Chimneys a throi i'r chwith i Heol Fawr.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r gogledd-orllewin ar Ffordd y Cwm fydd troi i'r chwith i Hamilton Street/Wallis Street, troi i'r dde i Heol Preseli/Carreg Onnen/y Gongol/Heol Fawr, troi i'r chwith i Ffordd Gyswllt newydd Chimneys a throi i'r chwith i'r Wesh.

force at 06:00 hours on 11 January 2019 and operate intermittently until 20:00 hours on 10 July 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists**

##### **A487 Trunk Road**

1. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A40 High Street.

#### **Alternative Route – Phase 1 - Before The New Chimneys Link Road is Built**

The alternative route for north westbound traffic is to continue along High Street to Rafael Roundabout then proceed northbound on A40 to Windyhall Roundabout and then 2nd exit on to Windyhall/Vergam Terrace/West Street. Vice versa for eastbound traffic.

#### **Alternative Route – Phase 2 – Once The New Chimneys Link Road is Built**

The alternative route for eastbound traffic on West Street will be to turn right on to the new Chimneys Link Road and turn left on to High Street.

The alternative route for north westbound traffic on Main Street will be to turn left on to Hamilton Street/Wallis Street, right on to Heol Preseli/Carreg Onnen/Y Gongol/High Street, left on to the new Chimneys Link Road and turn left on to West Street.

2. Y darn o gefnffordd yr A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Hamilton Street.

### **Y Llwybr Arall - Cam 2 - Ar ôl Adeiladu Ffordd Gyswllt Newydd Chimneys**

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain ar hyd y Wesh fydd troi i'r dde i Heol Fawr, troi i'r chwith i'r Gongol/Carreg Onnen/Heol Preseli/Wallis Street/Hamilton Street a throi i'r dde i Ffordd y Cwm.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r gorllewin ar Ffordd y Cwm fydd troi i'r chwith i Hamilton Street/Wallis Street, troi i'r dde i Heol Preseli/Carreg Onnen/y Gongol/Heol Fawr, troi i'r chwith i Ffordd Gyswllt newydd Chimneys a throi i'r dde i'r Wesh.

### **Cefnffordd yr A40**

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

### **Y Llwybr Arall - Cam 1 - Cyn Adeiladu Ffordd Gyswllt Newydd Chimneys**

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r de-orllewin ar y Wesh yw parhau ar hyd y Wesh/Vergam Terrace/Windyhall hyd at Gylchfan Windyhall ac yna mynd tua'r de i Gylchfan Rafael ac yna tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd Heol Fawr er mwyn dychwelyd i'r man cau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

### **Y Llwybr Arall - Cam 2 - Ar Ôl Adeiladu Ffordd Gyswllt Newydd Chimneys**

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r de-orllewin ar y Wesh fydd troi i'r chwith i Ffordd y Cwm, troi i'r dde i Hamilton Street/Wallis Street/Heol Preseli/Carreg Onnen/y Gongol a throi i'r dde i Heol Fawr.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r gogledd-ddwyrain ar Heol Fawr fydd troi i'r chwith i Ffordd Gyswllt newydd Chimneys a throi i'r dde i'r Wesh.

### **ATODLEN 2**

#### **System Draffig Unffordd Dros Dro**

1. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.

2. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at

2. The length of the A487 Main Street from the centre of its junction with West Street to the centre of its junction with Hamilton Street.

### **Alternative Route – Phase 2 – Once The New Chimneys Link Road is Built**

The alternative route for eastbound traffic on West Street will be to turn right on to High Street, left on to Y Gongol/Carreg Onnen/ Heol Preseli/Wallis Street/Hamilton Street and turn right on to Main Street.

The alternative route for westbound traffic on Main Street will be to turn left on to Hamilton Street/Wallis Street, right on to Heol Preseli/Carreg Onnen/Y Gongol/High Street, left on to the new Chimneys Link Road and turn right on to West Street.

### **A40 Trunk Road**

1. The length of the A40 High Street from the centre of its junction with the A487 West Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.

### **Alternative Route – Phase 1 - Before The New Chimneys Link Road is Built**

The alternative route for south westbound traffic on West Street is to continue along West Street/Vergam Terrace/Windyhall to Windyhall Roundabout then proceed south to Rafael Roundabout then proceed north east along High Street to return to point of closure. Vice versa for Eastbound traffic.

### **Alternative Route – Phase 2 – Once The New Chimneys Link Road is Built**

The alternative route for south westbound traffic on West Street will be to turn left on to Main Street, right on to Hamilton Street/Wallis Street/Heol Preseli/Carreg Onnen/Y Gongol and turn right on to High Street.

The alternative route for north eastbound traffic on High Street will be to turn left on to the new Chimneys Link Road and turn right on to West Street.

### **SCHEDULE 2**

#### **Temporary One Way Traffic System**

1. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the A40 High Street and A487 Main Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.

2. The length of the A40 High Street from the centre

ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.

### **ATODLEN 3**

#### **Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro a Chyfyngu ar Aros**

1. Y darn o'r A40 Heol Fawr o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A487 y Wesh a Heol Fawr.
2. Y darn o'r A487 y Wesh o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gyswllt newydd Chimneys.
3. Y darn o'r A487 Ffordd y Cwm o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 Heol Fawr a'r A487 y Wesh hyd at bwynt 70 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A487 West Street and High Street.

### **SCHEDULE 3**

#### **Temporary Prohibition of Overtaking and Waiting Restriction**

1. The length of the A40 High Street from the centre of its junction with the new Chimneys Link Road to the centre of its junction with the A487 West Street and High Street.
2. The length of the A487 West Street from the centre of its junction with the A40 High Street and the A487 Main Street to the centre of its junction with the new Chimneys Link Road.
3. The length of the A487 Main Street from the centre of its junction with the A40 High Street and the A487 West Street to a point 70 metres north east of that junction.